**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**4 MEHEFIN 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Ddydd Llun 4 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Andy Williams, ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd: Joe Johnson yn lle Paul Cunningham

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd: Bob Connah

**HEFYD YN BRESENNOL** Y Cynghorydd: Marion Bateman yn bresennol fel sylwedydd.

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Rheoli Corfforaethol; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) dros dro a Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

**YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

**12. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**13. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19**

Dechreuodd y Swyddog Gweithredu Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y cyflwyniad drwy gyfeirio tuag at Gynllun y Cyngor a thaflenni Adolygiad Targedau oedd wedi eu rhannu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu awgrymiadau a godwyd gan Aelodau yn y Gweithdy a gynhelir ar y 29 Mai yn Rhan 1 gyda'r targedau ar gyfer rhagori, gwella neu gynnal o fewn Cynllun y Cyngor yn cael eu cyfeiriadaeth yn Rhan 2.

Derbyniodd y Cynghorydd Richard Jones y fersiwn diwygiedig o'r modd strategol i adfywio a chefnogi canol trefi fel y rhannwyd, ond er hyn yr oedd yn pryderu os oes gan y Cyngor adnoddau digonol i wireddu'r uchelgais. Esboniodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y bydd y dull datblygiadol i adfywio a chefnogi canol trefi yn cael ei gynnal mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones pam fod y targed perfformiad ar gyfer tai fforddiadwy wedi eu diddymu. Mewn ymateb i'r esboniad gan y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y byddai'r targed wedi ei ddiddymu fel mesur perfformiad cenedlaethol, awgrymodd y Cynghorydd Jones y byddai'r targed yn parhau fel mesur lleol yn 2018/19. Cytunodd y Cynghorydd

Patrick Heesom gyda'r awgrymiad hwn a chododd bryder ynglŷn â datblygwyr yn darganfod bylchau yn y ddeddfwriaeth er mwyn cynnig digonedd o dai fforddiadwy.

Cododd Cynghorydd Heesom bryder ynghylch diffyg darpariaeth ieuenctid ledled y Sir a bod mwyafrif helaeth o'r trigolion yn methu cael mynediad at y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac felly ddim am gael budd allan o'r gwasanaeth yn cynnwys annog mynediad i waith ac ati. Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) dros dro bod y sylwadau wedi cael eu nodi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill i Thema Cynllun y Cyngor 'Cyngor Gwyrdd' a dywedodd yn ystod y gweithdy Aelodau ei bod hi wedi awgrymu y dylai'r Cyngor gyd-weithio gyda mannau bwyd parod iddynt gyflwyno cynllun lle byddai nodi rhif cofrestru becynnu'r bwyd er mwyn lleihau lefelau sbwriel ar draws y Sir. Awgrymodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y byddai'r syniad hwn yn cael ei ychwanegu i Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylcher er mwyn ystyried y dewisiadau sydd ar gael.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill bod boddhad gofalwyr yn parhau i gael ei fonitro.

Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch cofrestru ysgolion, esboniodd y Prif Swyddog dros dro Bolisi Cofrestru Ysgolion y Cyngor a'r broses apêl sy'n agored i rieni os nad oeddent yn llwyddiannus yn cael mynediad i'w hysgol dewis gyntaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson a oes unrhyw wybodaeth ar leoliad i le gall teithwyr sy'n aros am gyfnod byr aros. Hefyd fe ofynnodd a fyddai'r cynllun Buddsoddiad Canol Tref yn cael ei rannu'n deg ar draws y Sir. Cadarnhaodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol nad oedd lleoliad wedi ei bennu i'r teithwyr sy'n aros dros dro eto.

Awgrymodd Cynghorydd Paul Johnson y byddai'r Strategaeth Treftadaeth, sy'n cynnwys safleoedd pwysig megis Parc Treftadaeth Greenfield Valley; yn fwy perthnasol os caiff ei symud i Thema Cynllun y Cyngor 'Cyngor Uchelgeisiol', yn enwedig o safbwynt twristiaeth a safbwynt cyfleoedd economaidd.

Mewn ymateb i gwestiwn a phryderon a godwyd ynglŷn â safon y Tai Amlfeddiannaeth ymatebodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol drwy sôn y byddai datblygiad dogfen polisi dogfen yn sicrhau gwelliant mewn safon yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes gan Llywodraeth Cymru bolisi ar hyn.

Mewn ymateb i nifer o gwestiynau ynglŷn â glanweithdra strydoedd â'r arolwg glanweithdra; esboniodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol fod arolwg annibynnol wedi ei gynnal ar hyd y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Awgrymodd y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol, gan gynnwys gwybodaeth ar sut y cafodd yr arolwg annibynnol ei noddi

Diolchodd y Cadeirydd yr Aelodau am eu sylwadau, a esboniodd y byddai eu sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried ar gyfer y cynnwys terfynol y Cynllun y Cyngor 2018/19.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys y nodiadau a'r ymatebion o'r Gweithdy Aelodau a gynhelir ar y 28 Mai, fel y dosbarthwyd yn y cyfarfod, i gael eu cyflwyno i'r Cabinet, ynghyd â sylwadau gan Aelodau eraill yn ystod y cyfarfod, i ystyried ar gyfer cynnwys terfynol Cynllun y Cyngor 2018/19.

## 14. PERFFORMIAD 2017/18

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) dros dro'r trosolwg perfformiad y Cyngor 2017-18, gan ystyried y mesuryddion perfformiad a gafwyd eu cydnabod yn lleol, yn ogystal â'r mesuryddion a meincnodwyd yn genedlaethol, sef y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus.

Ar y cyfan roedd y ddwy ddogfen yn bositif, gyda'r mwyafrif o'r mesuryddion yn dangos llwyddiant o gyrraedd targed a gwella yn gyson ar hyd y flwyddyn. Er hyn, roedd yn bwysig iawn i'r Cyngor gadw ffocws ac i barhau i gynnal lefel o graffu ar ardaloedd perfformio penodol yn ystod 2018/19.

Mae'r adroddiad yn darparu manylion ar fesuryddion perfformiad sydd wedi dangos bod gostyngiad mewn perfformiad, heb gyrraedd y targed o bell ffordd, neu yn genedlaethol yn y 2 chwartel meincnodi gwaethaf. Byddai mesurau y cytunwyd arnynt yn y categorïau hyn yn cael eu monitro ar gyfer adolygiad ac arolygiaeth yn y dyfodol.

Soniodd y Cynghorydd Patrick Heesom am ei bryderon ynglŷn â'r nifer o ddangosyddion Coch. Gwnaeth sylw fod y cyrhaeddiad addysgol Cyfnod Allweddol 4 ddim digon uchel ac nad oedd perfformiad y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ddigonol. Dywedodd fod angen gwella'r ardaloedd hyn ar frys.

Gwnaeth y Cynghorydd Hilary McGuill sylw ar y mesuryddion perfformiad ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, mewn swydd neu hyfforddiant, a dywedodd eu bod angen eu nodi a'u holrhain yn gynt yn hytrach na dim ond eu cydnabod pan yn 16 mlwydd oed. Dywedodd y Prif Swyddog dros dro bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y portffolio er mwyn datblygu, ac fe amlinellodd fod angen defnyddio cyn lleied o adnoddau er mwyn wynebu'r heriau mwyaf.

Mewn ymateb i bryderon am Aura Leisure, esboniodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol bydd y Pwyllgor Trosolwg a Craffu Newidiadau Sefydliadol yn parhau i dderbyn adroddiadau cyson ar berfformiad Aura Leisure.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones os gellir darparu dogfen i Aelodau, a fyddai yn dangos y newidiadau rhwng Cynllun y Cyngor 2017/18 a Chynllun 2018/19, a fydd yn helpu Aelodau i adnabod y newidiadau yn rhwydd. Cytunodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol i ddarparu'r wybodaeth hon yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Adnoddau Corfforaethol. Yn ogystal, adroddodd hi fod adolygiad o Gynllun y Cyngor 2018/19 i hysbysu Cynllun 2019/20 am ddechrau yn gynharach ym mis Hydref/Tachwedd 2018.

Roedd aelodau yn galw am eglurhad am eiriad y dangosyddion perfformiad, cyfeiriad a sylwadau ar ddatblygiad perfformiad ar gyfer y canlynol:-

- IP1.3.4.1.MO1 – Gostyngiad Blynyddol o filiau tanwydd domestig ar gyfer trigolion Sir y Fflint (£);
- IP6.1.2.3.MO3 - Canran o Reolwyr yn cwblhau rhaglenni ynglŷn â straen;
- IP6.1.2.4.MO4 - Canran o weithwyr yn cwblhau rhaglenni ynglŷn â straen;
- IP1.6.4.2.M02 - Y nifer o ddigwyddiadau o gam-drin domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu hadrodd;
- IP1.6.4.3.MO3 – y nifer o ddigwyddiadau o gam-drin domestig yn cael eu hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru.

Darparodd y Prif Swyddog dros dro esboniad ar Reolwyr a gweithwyr yn cwblhau rhaglenni yn ymwneud â straen, gyda'r bwriad o sicrhau fod digon o Reolwyr wedi eu hyfforddi i nodi sefyllfaoedd o straen a chynnig cymorth addas pan fo angen. Esboniodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol, er bod y nod ar gyfer digwyddiadau o gam-drin domestig yn 0 (gan nad oedd yn briodol gosod nod), roedd Statws Coch, Melyn a Gwyrdd yn ymddangos fel 'Gwyrdd' i ddangos gwella mewn adrodd digwyddiadau, a oedd angen cynyddu, yn hytrach na bod yn ‘gudd’.

Gofynnodd aelodau bod disgrifiadau ac esboniadau yn adroddiadau perfformiad y dyfodol yn cael eu darparu yn Saesneg ac yn ddealladwy i bawb. Derbyniodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y sylwadau uchod a dywedodd bod arweiniad ar hyn yn cael ei ddarparu yn gyson i brif swyddogion perfformiad.

Gwnaeth y Cynghorydd Patrick Heesom sylw bod Aelodau angen deall unrhyw oblygiadau cyllideb os nad ydynt yn bodloni targedau perfformiad.

Awgrymodd y Cynghorydd Arnold Wolley fod y Pwyllgor yn gwahodd y Cabinet i gyhoeddi cynllun gweithredu i gydnabod tanberfformio lle mae Statws Coch, Melyn a Gwyrdd o Felyn, gyda dirywiad mewn tuedd perfformio, ynghyd â statws o Goch. Cefnogodd y Pwyllgor hwn. Cadarnhaodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu fod y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y cyfarfod nesaf.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

a) Fod angen nodi meysydd o danberfformiad corfforaethol a gwasanaeth yn erbyn Cynllun y Cyngor a’r mesuryddion perfformiad a osodwyd ar gyfer 2017/18; a

b) Bod y Pwyllgor yn gwahodd y Cabinet i gyhoeddi cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faes nad yw’n perfformio’n ddigonol a lle mae ganddynt Statws Coch, Melyn a Gwyrdd (CMG) sy’n Goch neu Felyn, gyda dirywiad yn eu tuedd perfformio.

## 15. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Nid oedd un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 yp a daeth i ben am 3.41 yp)

..................................................

**Cadeirydd**